YSGOL SADWRN

POLISI'R CWRICWLWM

Crëwyd gan: Sioned Rees-Jones

Dyddiad: Gorffennaf 2025

Adolygiad nesaf erbyn: Gorffennaf 2026

1. AMCANION Y CWRICWLWM

Mae cwricwlwm Ysgol Sadwrn yn anelu at:

- Darparu'r disgyblion a'r wybodaeth a'r cyfalaf diwylliannol sy'n ymwneud â Chymru a'r iaith Gymraeg.
- Cynnig darpariaeth ar-lein eang, cytbwys, a dynamig.
- Hybu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymreig a sgiliau iaith.
- Meithrin hyder a safbwynt cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg.
- Sicrhau mynediad cyfartal at ddysgu, gyda disgwyliadau uchel a chefnogaeth wedi'i theilwra i bob dysgwr.
- Mae ein cwricwlwm yn cael ei lunio gan werthoedd chwilfrydedd, creadigrwydd, cymuned, a hyder. Mae'r egwyddorion hyn yn arwain y cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ar draws pob oedran a lefel sgiliau.

2. CYFRAITH A CHYFARWYDDIADAU

Er nad yw Ysgol Sadwrn yn cael ei reoleiddio ac nid oes disgwyl iddo ddilyn rhaglen astudio statudol, mae ein cwricwlwm yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddysgu thematig cynhwysol wedi'I lywio gan y dysgyblion, gan alluogi plant o bob cwr o'r byd i ymgysylltu â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Rydym yn defnyddio Cynllun Achrediad Addysg Ar-lein y DfE fel offeryn hunanasesu ac yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer ar Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (2014) a Deddf Cydraddoldeb (2010).

3. ROLIAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Mae'r Pennaeth yn goruchwylio gweithredu ac effeithiolrwydd y polisi hwn.
- Mae athrawon yn gyfrifol am gyflwyno'r cwricwlwm ac addasu'r cynnwys i ddiwallu anghenion y disgyblion.
- Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys wrth lunio a thrafod ehangder ac addasrwydd y cwricwlwm.
- Mae fframwaith cadarn yn cefnogi gosod blaenoriaethau cwricwlaidd a thargedau uchelgeisiol i bob dysgwr.

4. TREFNIADAU A CHYNLLUNIO

Darperir y cwricwlwm drwy unedau thematig chwe wythnos o hyd. Mae'r adnoddau wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer Ysgol Sadwrn, gan ddefnyddio cynnwys Cymreig dilys. Mae rhieni a gofalwyr yn defnyddio datganiadau arweiniol am hyfedredd yn y Gymraeg i ddewis lefelau dosbarth priodol ac i fonitro cynnydd eu plentyn.

5. CYNWYSOLDEB

Mae Ysgol Sadwrn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i ddileu rhwystrau i ddysgu a sicrhau bod pob disgybl yn ffynnu.

Mae gwersi'n cael eu gwahaniaethu drwy fodel her tair haen:

- **Dechreuwyr:** sicrhau dealltwriaeth sylfaenol, sy'n arwain at:
- **Canolradd**: cymhwyso gwybodaeth mewn cyd-destunau newydd, sy'n arwain at:

- **Uwch:** ehangu dysgu, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu

Gellir cynnig yr haenau hyn fel cynnydd neu fel dewis arweiniad dysgwr i gefnogi meddwl twf a hunanasesiad.

6. CYFLEUSTERAU DIWYLLIANNOL A PHARTNERIAETHAU
Mae Ysgol Sadwrn yn ymrwymedig i gyflwyno treftadaeth gyfoes a chyfoethog Cymru ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn cael profiad rheolaidd o hanes Cymru, bywyd modern, traddodiadau ac arferion diwylliannol trwy weithgareddau ar-lein difyr.

Rydym yn cydweithio gyda llu o sefydliadau ledled Cymru, gan ddarparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel, cyfranwyr gwadd, a chyd-destunau diwylliannol y byd go iawn sy'n helpu i ddyfnhau cysylltiad dysgwyr â hunaniaeth Gymreig — ble bynnag y maent yn y byd.

7. LLEISIAU'R DISGYBLION
Mae lleisiau'r disgyblion wedi bod yn allweddol wrth lunio'r cwricwlwm. Roedd adborth yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar wersi a themâu.

Dechreuwyr:

1. Y Cartref
2. Y Teulu
3. Bywyd
4. Yr Ysgol
5. Hamdden
6. Teithio a Gwyliau

Canolradd:

7. Siopa
8. Anifeiliaid
9. Chwedlau
10. Swyddi
11. Cestyll
12. Dathliadau

Uwch:

Wrthi yn cael ei gynllunio

8. TREFNIADAU MONITRO
Mae ansawdd ac effeithiolrwydd y cwricwlwm yn cael ei fonitro gan y Pennaeth, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr allanol, drwy:

- Taith ddysgu ar-lein
- Adolygiadau gwersi'n rheolaidd

- Adborth gan ddisgyblion, rhieni/gofalwyr, a staff

Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a chyhoeddir y fersiwn ddiweddaraf ar: www.ysgolsadwrn.cymru